

# Dim dileu golygyddol

*“Twyllaist fi, O Arglwydd, ac fe’ m twyllwyd. Cryfach oedd it na mi, a gorchfygaist fi.” (adn. 7)*

## Beth am ddarlenn Jeremeia 20:7–18 ac yna myfyrio

Ddoe mi ddaru ni orffen efo’r syniad fod gwacter Naomi wedi ei wau i gynllun Duw ac iddo ddod yn rhan o ragluniaeth Duw. Cafodd cwyn Naomi ei gymryd o ddifrif; chafodd o ddim ei ddileu o’r stori, ei liniaru na’i wneud yn fwy ysbrydol. Ni ddylem fethu’r pwynt, bod cwyn Naomi’n dod yn rhan o’r stori. Mae cwynion yn eithaf cyfarwydd yn yr Ysgrifur. Mae’n debyg mai cwyn Jeremeia yn ein darlenniad heddiw ydy’r un mwyaf adnabyddus.

Yn ei sylwadau ar Ruth yn yr *Anchor Bible* dywed Edward F. Campbell: “Nid yn unig mae Duw yn goddef cwynion, ond efallai dyma’r safbwynt y dylai person sydd yn cymryd Duw o ddifrif fod yn ei gymryd: Jona biwis, Jeremeia ymroddedig, Job ddyfalbarhaus, a saif Naomi yn eu cwmni.” Pe bai cwyn Naomi wedi ei olygu allan o’r testun – pe byddai wedi ei ystyried yn anaddas mewn stori am iachawdwriaeth – yna nid cofnod hollol ffeithiol gywir fyddai gennym ni. Er iddi weld ei hun yn wag, cafodd ei llenwi’n symbolaidd wrth i Ruth ddychwelyd oddi wrth Boas efo rhodd hael o haidd iddi. Fel hyn mae’r Beibl Cymraeg Newydd yn trosi geiriau Boas: “Ni chei fynd yn waglaw at dy fam-yng-nghyfraith.” (3:17)

Yn ddiweddarach gwelwn ei gwacter yn cael ei droi ar ei ben ar ôl geni Obed, a merched y pentref yn gweiddi: “Ganwyd mab i Naomi.” (4:17) Nid i Ruth sylwer, ond i Naomi. Rydym yn sylwi hefyd nad ymyrrodd Duw ar unwaith, gan roi eglurhad i Naomi o’i ddulliau a’i ffyrdd pan gwynodd hi. Yn hytrach, cafodd ei hun, yn ôl un esboniwr: “mewn cyfres o berthnasau byw oedd yn datblygu ac yn ymestyn ymlaen i’r dyfodol.” Chafodd ei theimladau negyddol mo’u dileu o stori Duw, ond eu gwneud yn rhan ohoni.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Salm 142:1–7;  
Jona 4:1–11

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae cwyn y salmydd yn troi’n ddathliad?
2. Beth ddysgodd y winwydden, y pry a’r gwynt i Jona am ofal Duw?

## Gweddi

O Dad, dw i’n falch na wnest ti ddileu cwyn Naomi o’r stori na’i ystyried yn anaddas i’w gynnwys mewn stori am iachawdwriaeth chwaith. Ddaru ti ei gymryd a’i ddefnyddio i ddangos dy ragluniaeth. Am ardderchog. Amen.